

RHAGAIR

Cytunodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar Gynllun Iaith Gymraeg cyntaf Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar 23 Ionawr 1998. Ei nod oedd darparu Gwasanaeth Iaith Gymraeg oedd yn ateb anghenion y bobl sy'n siarad Cymraeg ym Mlaenau Gwent, p'un ai'n rhugl neu'n un o'r cannoedd lawer o oedolion a phobl ifanc sy'n dysgu'r Gymraeg yn ein Canolfannau Addysg Cymunedol ac Ysgolion. Bu newid sylweddol yn arferion gwaith y Cyngor i sicrhau fod yr iaith Gymraeg yn y prif ffrwd o fewn pob agwedd o ddarpariaeth gwasanaeth. Bu hyn yn her sylweddol i Aelodau a Swyddogion a bydd eu hymrwymiad parhaol a'u proffesiynoldeb yn ffactor hanfodol wrth barhau i weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg yn y blynyddoedd i ddod.


Rhoddodd cyfrifiad 2001 arwydd i ni o dwf hynod yr iaith yn yr ardal hon dros y deng mlynedd diwethaf. Yn **1991** dim ond **1,696 neu 2.4%** o'r boblogaeth 3 oed neu drosodd a siaradai Gymraeg. Yn **2001** roedd hyn wedi cynyddu i **6,421 neu 9.5%**.

Hoffem feddwl bod y Cyngor drwy ein system Gwasanaethau Addysg a Dysgu Gydol Oes, Canolfannau Addysg Cymunedol a darpariaeth staff "mewnol" wedi mewn rhyw fodd wedi helpu tuag at y cynnydd sylweddol hwn yn nifer y rhai sy'n siarad Cymraeg ym Mlaenau Gwent yn y deng mlynedd diwethaf. Ein bwriad yw y bydd y cynllun a atodir yn adeiladu ar y gwaith a ddechreuwyd yn 1998 i ymwreiddio'r iaith Gymraeg yn gadarnach yng ngwerthoedd craidd y Cyngor a gwella cyflwyniad gwasanaeth drwy'r iaith Gymraeg dros y 3 blynedd nesaf.

Gan weithio mewn cysylltiad gyda Safon Cydraddoldeb Generig Llywodraeth Cynulliad Cymru, Iaith Pawb ac adran Cydraddoldeb y Ddeddf Llywodraeth Cynulliad Cymru, credwn y bydd y cyhoedd, staff ac Aelodau yn cael y ddogfen yn ddatganiad clir am ein hymrwymiad parhaol i ddarparu Gwasanaeth Iaith Gymraeg o ansawdd uchel i bobl Blaenau Gwent.



R. MORRISON
PRIF WEITHREDYDD



CYNGHORYDD J.J. HOPKINS, DIP.ED., DIP.SC., O.ST.J.,
ARWEINYDD Y CYNGOR

CYNGOR BWRDEISDREF SIROL BLAENAU GWENT

CYNLLUN IAITH GYMRAEG – Paratowyd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

Cafodd y cynllun diwygiedig hwn gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg dan Adran 14(1) Deddf yr Iaith Gymraeg ar y 13eg o Ionawr 2006.

Datganiad

'Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar sail gyfartal wrth gynnal Busnes Cyhoeddus.

- ❖ Bydd yn cynnig yr hawl i'r cyhoedd i ddewis pa iaith i'w defnyddio yn eu trafodion gyda'r Cyngor.
- ❖ Mae'n cydnabod y gall Aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn a'u anghenion yn well yn eu dewis iaith.
- ❖ Mae'n cydnabod fod galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio eu dewis iaith yn fater o arfer da, nid addefiad.
- ❖ Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd y Cyngor yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd yng Nghymru.
- ❖ Mae'r cynllun hwn yn cyfeirio'n benodol at yr Iaith Gymraeg, caiff unrhyw ieithoedd eraill eu cynnwys o fewn Cynllun Cydraddoldeb Hil y Cyngor.

Medrir cael copïau di-dâl o'r Cynllun hwn drwy gysylltu â'r bobl ddilynol:-

JOHN PEARCE
Cyfarwyddwr Llywodraeth Gorfforaethol
Y Ganolfan Ddinesig
Glyn Ebwy
NP23 6XB


ALAN BURKITT
Swyddog Cydraddoldeb
Adran Llywodraeth Gorfforaethol
Y Ganolfan Ddinesig
Glyn Ebwy NP23 6XB
01495 355108

E-bost: john.pearce@blaenau-gwent.gov.uk

E-bost: alan.Burkitt@blaenau-gwent.gov.uk

Medrir hefyd lawr lwytho'r Cynllun hwn o wefan y cyngor:- www.blaenau-gwent.gov.uk

Canran o Boblogaeth Blaenau Gwent (3 oed a throsodd) sy'n medru siarad Cymraeg yn ôl Ward Etholiadol



1. CYNWYS Y CYNLLUN

- Rhagair
- Datganiad
- Map thematig o siaradwyr Cymraeg Blaenau Gwent

1.1 Cyflwyniad

1.1.7 Ystadegau iaith Gymraeg ar gyfer Blaenau Gwent a Chymru

2. CYNLLUNIO A CHYFLENWI GWASANAETH

2.1 Polisiâu a Mentrau Newydd

2.2 Cyflenwi Gwasanaeth

2.3 Safon y Gwasanaeth yn y Gymraeg

2.4 Gwasanaethau a Gyflenwir ar ran y Cyngor gan Bartïon eraill

2.5 Gweinyddu Swyddogaethau Rheoleiddiol

3. DELIO GYDA'R CYHOEDD DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

3.1 Gohebiaeth

3.2 Ffôn

3.3 Cyfarfodydd Cyhoeddus

3.4 Cyfarfodydd Eraill

3.5 Ymwneud arall â'r cyhoedd

4. DELWEDD GYHOEDDUS Y CYNGOR

4.1 Hunaniaeth Gorfforaethol

4.2 Arwyddion

4.3 Cyhoeddi ac Argraffu Deunydd Cyhoeddus

4.4 Ffurflenni a Deunydd Esboniadol

- 4.5 Datganiadau i'r Wasg
- 4.6 Hysbysebu a Chyhoeddusrwydd
- 4.7 Hysbysiadau Swyddogol
- 4.8 Hysbysebion Recriwtio Staff

5. GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

- 5.1 Staffio
- 5.2 Dysgu'r Gymraeg
- 5.3 Recriwtio
- 5.4 Hyfforddiant Galwedigaethol
- 5.5 Trefniadau Gweinyddol
- 5.6 Monitro
- 5.7 Targedau
- 5.8 Cyhoeddi Gwybodaeth

6. CYHOEDDUSRWYDD

7. CYNLLUNIAU GWEITHREDU

8. POLISI CYFIEITHU

1.1 CYFLWYNIAD

1.1.1 Bu Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent yn Awdurdod Unedol ers 1 Ebrill 1996 ac mae wedi ei leoli yng nghymoedd De Cymru. Mae'n cynnwys tua 10,900 hectar, gan ymestyn dros 109 cilomedr sgwâr rhwng Tredegar a Brynmawr yn y Gogledd i islaw Abertyleri yn y De. Mae rhan fechan o'r Fwrdeisdref Sirol ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

1.1.2 Mae gan Flaenau Gwent bum cymuned neilltuol:-

Abertyleri, Brynmawr, Glyn Ebwy, Nantyglo a Blaenau, Tredegar

1.1.3 Dangosodd Cyfrifiad 2001 fod Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent yn gwasanaethu cyfanswm poblogaeth o 70,064. Mae 67,795 o bobl 3 oed a throsodd, gyda 6,421 neu 9.5% ohonynt yn medru siarad Cymraeg.

- Mae 305 o ddisgyblion yn mynychu Ysgol Gymraeg Brynmawr ar hyn o bryd (yn cynnwys y Feithrinfa)
- 237 o ddisgyblion ysgol uwchradd o Flaenau Gwent yn mynychu Ysgol Gyfun Gwynllyw (sydd ym Mwrdeistref Sirol Torfaen)
- Mae 12 o ddisgyblion ysgol uwchradd o Flaenau Gwent yn mynychu Ysgol Gymraeg Cwm Rhymni (sydd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili).

Mae'r ffigurau uchod yn hynod o gymharu â ffigurau Cyfrifiad 1991:-

roedd 2.3% neu 1,696 o'r boblogaeth 3 oed a throsodd yn medru'r Gymraeg a 16 o ddisgyblion ysgol uwchradd yn mynychu Ysgol Gyfun Gwynllyw, Pontypwl.

1.1.4 Mae'r Cyngor yn cyflogi tua 3,900 o staff ac mae ganddo 42 o Aelodau etholedig.

1.1.5 Mae'r awdurdod wedi mabwysiadu Safon Cydraddoldeb Generig Llywodraeth Cynulliad Cymru a fydd yn prif ffrydio a meincodi dynesiad arferion cydraddoldeb Iaith Gymraeg y Cyngor ochr yn ochr â chydaddoldeb Hil, Rhyw, Anabledd, Crefydd, Tueddiad Rhywiol ac Oedran (yn dod i rym yn 2006) wrth gyflenwi gwasanaeth ac mewn cyflogaeth.

1.1.6 Caiff gwasanaethau niferus ac amrywiol y Cyngor eu darparu gan yr adrannau dilynol

Adran Llywodraeth Gorfforaethol

- Cofrestru Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau
- Gwasanaethau Etholiad
- Arwystlai Tir
- Gwasanaethau Cyfreithiol
- Ystadau

Adnoddau Dynol

-

Adnodda

- Treth Cyngor a Threthi
- Tai a Budd-daliadau Treth Cyngor

Cyfarwyddiaeth Amgylcheddol

Adran Gwasanaethau Tai

- Tai Cyngor
- Rheolaeth Ystadau
- Digartrefedd

- Adran Gwasanaethau Technegol

- Cynnal a chadw Eiddo
- Gwasanaethau Pensaerniol
- Gwasanaethau Peirianeg
- Cludiant
- Cludiant Teithwyr

Adran Diogelu'r Cyhoedd

- Iechyd yr Amgylchedd
- Safonau Masnach
- Cynllunio
- Rheoli Adeiladu
- Tai Sector Preifat

Adran Adfywio

- Hyfforddiant Polisi Economaidd
- Adfywio
- Job Match
- Cymunedau Cyntaf
- Gwasanaethau Busnes

Adran Hamdden

- Celfyddydau
- Llyfrgelloedd
- Treftadaeth
- Twristiaeth
- Cynnal a Chadw Tiroedd
- Chwaraeon a Hamdden

Adran Rheolaeth Amgylcheddol a Gwasanaethau Priffyrdd

- Cynnal a Chadw Priffyrdd (yn cynnwys Cynnal a Chadw Gaeaf)
- Mynwentydd
- Cyfleusterau Cyhoeddus
- Rheolau Gwastraff (yn cynnwys Ailgylchu)
- Goleuadau Stryd
- Llocio Anifeiliaid
- Prydau ar Olwynion
- Rheolaeth Fflyd
- Glanhau Strydoedd

Adran Addysg a Dysgu Gydol Oes

- Addysg
- Arlwyo Ysgol
- Trafnidiaeth Ysgol
- Plant a Phobl Ifanc

Adran Gwasanaethau Cymdeithasol

- Gwasanaethau Oedolion (yn cynnwys Anableddau Dysgu, Gofal Iechyd Meddwl, Therapi Galwedigaethol, Nam ar y Golwg a'r Clyw)
- Gwasanaethau Gofal Cartref
- Gwasanaethau Preswyl
- Gwasanaethau Plant (yn cynnwys Canfod Cartref, Cefnogaeth Gymunedol, Plant gydag Anableddau, Troseddau Ieuenctid, Plant Dan Ofal)
- Gwasanaethau Dydd

1.1.7 YSTADEGAU IAITH GYMRAEG O GYFRIFIAD 2001

Mae'r tabl islaw yn dangos y nifer a chanran y boblogaeth 3 oed a throsodd a all siarad Cymraeg yn ôl ward etholiadol.

Enw Swyddogol yr Adran Etholiadol	Grŵp Oedran	RHIFAU			CANRAN
		Pawb	Gallu siarad Cymraeg	Dim yn gallu siarad Cymraeg	Gallu siarad Cymraeg
Abertyleri	3 a throsodd	4358	456	3902	10.5
Badminton	3 a throsodd	3095	276	2819	8.9
Beaufort	3 a throsodd	3751	440	3311	11.7
Blaenau	3 a throsodd	4679	483	4196	10.3
Brynmawr	3 a throsodd	5420	511	4909	9.4
Cwm	3 a throsodd	4188	407	3781	9.7
Cwmtylleri	3 a throsodd	4595	442	4153	9.6
GlynEbwy Gogledd	3 a throsodd	4588	376	4212	8.2
Glyn Ebwy De	3 a throsodd	4065	346	3719	8.5
Georgetown	3 a throsodd	3377	329	3048	9.7
Llanhilledd	3 a throsodd	4602	407	4195	8.8
Nantyglo	3 a throsodd	4127	396	3731	9.6
Rassau	3 a throsodd	3190	281	2909	8.8
Sirhywi	3 a throsodd	5348	518	4830	9.7
Six Bells	3 a throsodd	2562	239	2323	9.3
Tredegar Canol a Gorll	3 a throsodd	5854	514	5340	8.8
Blaenau Gwent	3 a throsodd	67799	6421	61378	9.49

Swyddfa:- Swyddfa Ystadegau Gwladol – Cyfrifiad 2001

Mae'r tabl hwn yn dangos cynnydd sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg ers y cyhoeddwyd ffigurau'r cyfrifiad diwethaf yn 1991 pan mai dim ond 2.4% oedd y canran o'r rhai 3 oed a throsodd a fedrai siarad Cymraeg. Mae hefyd yn arwyddocaol mai Blaenau Gwent sydd â'r ffigurau mewnffudo ac allffudo isaf o blith y 21 awdurdod lleol arall yng Nghymru.

2. CYNLLUNIO A CHYFLENWI GWASANAETH

2.1 POLISI'AU A CHYNLLUNIAU NEWYDD

2.1.1 Mae'r Cyngor yn ymwneud â chynllunio a ffurfio polisiau newydd ar sail barhaol. Wrth wneud hynny, bydd y Cyngor yn asesu canlyniadau ieithyddol y polisiau hyn a sicrhau eu bod yn cwrdd â'r ymrwymadau a roddwyd yn y cynllun hwn. Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd y Cyngor yn defnyddio polisiau a chynlluniau newydd i hwyluso defnydd yr iaith Gymraeg ac i symud y sefydliad yn nes at weithredu egwyddor cydraddoldeb ar bob cyfle.

2.1.2 Cymhwysir y mesurau a gynhwysir yn y cynllun hwn i bolisiau newydd a chynlluniau newydd neu gynlluniau a ddiweddarir yn ystod eu gweithrediad neu ddatblygiad. Ymgynghorir â Bwrdd yr Iaith Gymraeg os cynigir unrhyw bolisiau neu gynlluniau a fyddai, pe'u gweithredid, yn effeithio ar Gynllun Iaith Gymraeg y Cyngor neu Gynllun sefydliad arall. Ni newidier Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor heb gytundeb ymlaen llaw gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

2.1.3 Caiff swyddogion sy'n ymwneud â ffurfio a gweithredu polisiau newydd a pholisiau wedi eu diweddarau eu hysbysu am ofynion Deddf yr Iaith Gymraeg, a'r ymrwymadau a wnaeth y Cyngor yn ei Gynllun Iaith Gymraeg. Rhoddir cyfarwyddyd i staff ar sut i asesu effeithiau tebygol y cynigion newydd ar y Cynllun a'r camau sydd eu hangen i sicrhau y cydymffurfir â'r mesurau hyn.

2.2 CYFLENWI GWASANAETH

2.2.1 Caiff Gwasanaethau'r Cyngor eu rheoli gan y Prif Weithredwr a 5 Cyfarwyddwyr Corfforaethol sydd gyda'i gilydd yn ffurfio Tîm Rheolaeth y Cyngor. Mae pob Cyfarwyddwr Corfforaethol yn gyfrifol am ystod o wasanaethau uniongyrchol fel a amlinellir yn 1.1.6.

2.2.2 Fel Awdurdod Addysg lleol mae gan y Cyngor gyfrifoldeb dros ddarparu ysgolion, sicrhau nifer ddigonol o leoedd ysgol, reoli y cwricwlwm a chymeriad yr Ysgolion a'r gyfeiriad strategol yr iaith Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg. Mae gan yr Adran Dysgu Gydol Oes Gynllun Addysg Cymraeg a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Fel arall caiff addysg ei gyflenwi yn sylweddol drwy gyrrff llywodraethu ysgolion, sy'n penderfynu ar eu trefniadau a chymhwyso adnoddau mewn staffio, cyflenwadau a gweinyddiaeth.

2.2.3 Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i adeiladu gwasanaeth iaith Gymraeg cyson a threfnus ar gyfer siaradwyr Cymraeg y cyhoedd. Hysbysir y cyhoedd am argaeledd y gwasanaeth hwn yn y ffyrdd dilynol:-

Cyfarchion ffôn dwyieithog

Deunydd ysgrifennu

Hysbysiadau cyhoeddus

Arwyddion – mewnol ac allanol (adeiladau), arwyddion ffyrdd ac enwau stryd

Hysbysebion – recriwtio a darpariaeth gwasanaeth

Pamffledi

Llyfrynnau gwasanaeth

Gwefan y Cyngor

Papur Newydd Cymunedol

2.2.4 Bwriad y Cyngor yw y bydd pob Adran yn anelu i ddarparu gwasanaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Lle nad yw hyn yn bosibl bob amser, gall yr Awdurdod gyrchu aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg sy'n barod i weithredu fel hwylusydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae rhestr o swyddogion sy'n siarad Cymraeg yng nghyfeiriadur ffôn y Cyngor ar ei safle Mewnrwyd.

2.2.5 Hysbysir pob Swyddog am Gynllun iaith Gymraeg y Cyngor a'r systemau, gweithdrefnau a gwasanaethau sydd ar waith i ateb yr ymrwymadau a nodir yn y Cynllun.

2.2.6 Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd cynnig dewis iaith wrth ddarparu ei wasanaethu a bydd yn ymdrechu i weithredu'r dynesiad dilynol:-

- Cynnig y cyfle i'r cyhoedd yng Nghymru i ddewis pa iaith i'w defnyddio wrth ymwneud gyda'r Cyngor;
- Cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith;
- Cydnabod fod galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio eu hiaith yn fater da, nid yn addefiad.

2.3 SAFON Y GWASANAETH YN Y GYMRAEG

2.3.1 Bwriad pendant y Cyngor yw cyflenwi ei wasanaethu i'r safonau uchaf yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rhoddir hysbysrwydd yn gyson i'r ymrwymiad hwn mewn hysbysiadau, deunydd papur a dogfennau ymgynghori.

2.3.2 Y nod yw darparu'r safon uchel hwn o wasanaeth yn ein holl ymwneud gyda'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg yn unol ag ymrwymadau'r Cynllun hwn.

2.3.3 Caiff safon a gweithrediad y gwasanaeth hwn ei adolygu fel a nodir ym mharagraff 5.6, gyda'r nod o wella a sicrhau cysondeb safon gwasanaethau yn Gymraeg a ddarperir yn sefydliadau niferus y Cyngor.

2.4 GWASANAETHAU AR RAN Y CYNGOR GAN BARTIÖN ERAILL

Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth gyda chyrrff cyhoeddus, sefydliadau o'r sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill. Mae'r Cyngor yn gweithio ar nifer o lefelau pan yn gweithio gydag eraill.

2.4.1 Pan fo'r Cyngor yn arweinydd strategol ac ariannol o fewn partneriaeth bydd yn sicrhau fod y ddarpariaeth gwasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio gyda'i Gynllun Iaith Gymraeg.

2.4.2 Pan fo'r Cyngor yn ymuno â phartneriaeth lle mae corff arall yn arwain mewnbyn y Cyngor bydd y bartneriaeth yn cydymffurfio gyda'r Cynllun Iaith Gymraeg a bydd y Cyngor yn annog partneriaid hefyd i gydymffurfio hefyd.

2.4.3 Pan fo'r Cyngor yn bartner mewn consortiwm, bydd yn annog y consortiwm i fabwysiadu polisi dwyieithog. Pan yn gweithredu'n gyhoeddus yn enw'r Consortiwm, bydd y Cyngor yn gweithredu yn ynoI â'i Gynllun Iaith Gymraeg.

2.4.4 Pan fo'r Cyngor yn ymuno â neu'n ffurfio Partneriaeth, bydd yn gofyn i ddarpar bartneriaid am eu Cynlluniau Iaith Gymraeg, polisiâu iaith neu'r dull y byddant yn gweithredu'n ddwyieithog. O fewn unrhyw bartneriaeth bydd y cyngor yn cynnig cyngor a chefnogaeth i'r sefydliadau partner eraill.

2.4.5 Mae gan strategaeth Caffael y Cyngor uned benodol sy'n delio gyda chydardoldeb a chaffaeliad ac mae'r iaith Gymraeg yn un o'r llinynnau allweddol. Mae dogfennau tendr yr awdurdod hefyd yn trafod yr agenda Cydraddoldeb yn fanwl, gyda'r iaith Gymraeg unwaith eto yn un o'r elfennau cyfartaledd allweddol. Mae'r ddogfen yn gofyn am dystiolaeth gan yr ymgeisydd am fodolaeth Polisi Cydraddoldeb ac am hysbysu staff am yr Agenda Cydraddoldeb drwy hyfforddiant neu ddogfennau a gyhoeddir.

2.5 GWEINYDDU SWYDDOGAETHAU RHEOLEIDDIOL

2.5.1 Bydd y Cyngor pan yn ymarfer swyddogaeth reoleiddiol, megis dyfarnu trwyddedau a chaniatâd, yn annog unrhyw sefydliad, corff neu unigolyn i ddilyn ymarfer dwyieithog a defnyddio'r iaith Gymraeg yn eu gweithgareddau. Bydd yn gwneud hynny drwy gyhoeddi taflen a nodi'r farn hon yn unrhyw ddogfennau cais perthnasol a gyhoeddir i'w defnyddio gan y cyhoedd a dangos fod y Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd yr holl ddogfennau yn ymwneud â swyddogaethau rheoleiddiol yn ddwyieithog.

2.5.2 Paratowyd cyfarwyddyd ar weithrediad y mesur hwn ar gyfer swyddogion yn gweinyddu swyddogaethau rheoleiddiol.

3. DELIO GYDA'R CYHOEDD DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf bosibl yn Gymraeg ynghyd â'r Saesneg wrth ddelio gydag aelodau o'r cyhoedd.

3.1 GOHEBIAETH

3.1.1 Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg (yn cynnwys drwy E-bost a ffacs).

3.1.2 Anfonir ateb Cymraeg i unrhyw ohebiaeth Gymraeg sydd yn ymofyn ateb ynghyd ag unrhyw ffurflenni neu daflenni Cymraeg, dwyieithog y gofynnir amdanynt.

3.1.3 Os cynhaliwyd cyfarfod, cyfweiliad neu sgwrs ffôn yn Gymraeg, anfonir unrhyw ohebiaeth neu wybodaeth ddilynol sydd ei hangen yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

3.1.4 Pan fydd yn hysbys fod unigolyn, grŵp neu gymdeithas yn gweithredu fel arfer drwy gyfrwng y Gymraeg, yna anfonir llythyrau a ffurflenni neu daflenni cysylltiedig gan y Cyngor yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

3.1.5 Bydd cylchlythyrau, llythyrau safonol a gohebiaeth yn ddwyieithog ac fe'u dosberthir i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r polisi Cyfieithu corfforaethol.

3.1.6 Cyfarwyddwyr Corfforaethol y Cyngor fydd yn gyfrifol am sicrhau fod staff yn gwybod am yr ymrwymadau a'r manylion a gynhwysir yn y Cynllun. Rhoddwyd cyfarwyddyd parthed ymrwymadau'r Cynllun ar ohebiaeth a chaiff y llyfryn hwn ei adolygu a'i anfon unwaith eto i holl aelodau'r staff.

3.1.7 Mae'r dyddiad targed ar gyfer ymateb i lythyrau Cymraeg yr un ag ar gyfer ateb i lythyrau Saesneg. Pan fo swyddogion yn delio gyda gohebiaeth Gymraeg rhaid iddynt anfon gwybodaeth ar unwaith i'r Swyddog Cydraddoldeb i gychwyn y broses gyfieithu ac i alluogi cadw at amserlenni ateb.

3.2 FFÔN

3.2.1 Croesewir galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

3.2.2 Bydd cyfarchiad switsfwrdd cychwynnol yn ddwyieithog, (**Bore Da – Good Morning/Prynhawn Da – Good Afternoon/Noswaith dda – Good evening**) a bydd y person sy'n delio â'r galwad yn cyfeirio galwr sy'n siarad Cymraeg at swyddog sy'n siarad Cymraeg yn yr Adran berthnasol neu i swyddog sy'n siarad Cymraeg a all gydlynu gyda'r Adran gywir er mwyn delio gydag ymholiad/problem y person yn Gymraeg.

Caiff holl aelodau staff eu hannog i ateb galwadau yn ddwyieithog fel mater o arfer da.

3.2.3 Os nad oes swyddog yn siarad Cymraeg ar gael, gwneir trefniadau i siaradwr Cymraeg ddychwelyd y galwad cyn gynted ag sydd modd.

3.2.4 Rhoddwyd cyfarwyddyd i staff ar drafod galwadau ffôn gan siaradwyr Cymraeg, yn cynnwys manylion y swyddogion sy'n barod ac yn medru delio gyda galwadau yn Gymraeg. Mae rhestr o siaradwyr Cymraeg ar gael o fewn cyfeiriadur ffôn mewnol y Cyngor ac ar ei safle Mewnwyd ac yn y sefyllfa annhebygol nad oes siaradwr Cymraeg ar gael, cymerir manylion a dychwelir galwadau ffôn cyn gynted ag sydd modd.

3.2.5 Bydd pob cyfarchiad ffôn-ateb yn ddwyieithog.

3.3 CYFARFODYDD CYHOEDDUS

3.3.1 Mae croeso i bobl sy'n mynychu cyfarfodydd cyhoeddus (yn cynnwys gwrandawiadau, ymchwiliadau a thrafodion cyfreithiol eraill) a drefnir gan y Cyngor i ddefnyddio eu dewis iaith.. Dangosir hyn ar hysbysiadau parthed mynychiad mewn cyfarfodydd (gweler y datganiad iaith yn 3.3.3.).

3.3.2 Bydd swyddogion yn trefnu cyfarfodydd cyhoeddus yn darparu cyfleusterau cyfieithu os gwyddys ymlaen llaw mai Cymraeg yw dewis iaith y rhai sy'n mynychu.

3.3.3 Bydd hysbysiadau ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog a byddant yn cynnwys y datganiad iaith dilynol:-

“Os dymunwch siarad Cymraeg yn y cyfarfod neilltuol hwn, mae'r Cyngor yn cydnabod yr hawl hwn yn llawn, ac yn gofyn i chi ein hysbysu am hyn cyn gynted ag sy'n ymarferol.”

3.3.4 Os yw cyfarfod i gael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg, yna bydd y trefnydd yn darparu staff dwyieithog i gyfarch a chyfeirio'r aelodau hyn o'r cyhoedd ac i ddelio gydag unrhyw ymholiadau neu broblemau a all godi.

Mae'r Cyngor wedi gosod system gyfieithu yn ei Siambr Cyngor sy'n caniatáu cyfieithu ar y pryd.

3.4 CYFARFODYDD ERAILL

3.4.1 Mae'r Cyngor yn trefnu ystod eang o gyfarfodydd yn ychwanegol at y rhai sy'n agored i'r cyhoedd – ymweliadau i weithleoedd, ymweliadau proffesiynol gan staff, cyfweiliadau preifat, cyfarfodydd safle neu weithgor, cynadleddau a chyfarfodydd wyneb-i-wyneb eraill. Bydd croeso i bobl sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd o'r fath i ddefnyddio iaith eu dewis, er y bydd angen hysbysiad ymlaen llaw er mwyn darparu gwasanaeth cyfieithu neu swyddog sy'n siarad Cymraeg. Dangosir hyn ar hysbysiadau parthed presenoldeb mewn cyfarfodydd (gweler datganiad iaith yn 3.3.3).

3.4.2 Os trefnir cyfarfod gydag unigolyn neu sefydliad sy'n well ganddynt weithio drwy gyfrwng y Gymraeg, gwneir trefniadau i ddarparu gwasanaeth cyfieithu neu gyfleusterau addas eraill.

3.4.3 Gwneir trefniadau i sicrhau fod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael mewn gweithleoedd lle mae aelodau'r cyhoedd yn dymuno trafod materion gyda'r Cyngor yn Gymraeg (drwy drefniant ymlaen llaw.)

3.5 ACHLYSURON ERAILL O DDELIO Â'R CYHOEDD

3.5.1 Pan fo'r Cyngor yn cyfathrebu gyda'r cyhoedd drwy systemau megis cyfathrebu electronig cyfrifiadurol, y Rhynggrwyd, cysylltiadau sain/gweledol a'r system anerchiad cyhoeddus bydd yn gwneud trefniadau i'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg.

3.5.2 Bydd gwefan gorfforaethol y Cyngor www.blaenau-gwent.gov.uk yn ddwyieithog. Gwneir hyn mewn modd cronus a bydd yn dechrau drwy greu tudalen dewis iaith, a thrwy gael hafanau pob adran ar gael ar safleoedd Saesneg a Chymraeg ar wahân.

4. DELWEDD GYHOEDDUS Y CYNGOR

4.1 HUNANIAETH GORFFORAETHOL

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu polisi hunaniaeth gorfforaethol ffurfiol sydd wedi ymgorffori'r pwyntiau dilynol o'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn.

4.1.1 Bydd delwedd gyhoeddus a hunaniaeth gorfforaethol y Cyngor yn cynnwys ei enw a gwahanol gyfeiriadau yn ddwyieithog a bydd yn parchu egwyddor cydraddoldeb y ddwy iaith.

4.1.2 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r polisi dwyieithog corfforaethol hwn ar bob pennawd llythyr, dalen trosglwyddo ffacs, dalen cyfarch, memoranda a chardiau busnes.

4.1.3 Ni chynhwysir y dilynol ym mholisi hunaniaeth corfforaethol y Cyngor, ond mae eu hangen i ddilyn yr egwyddor o ddwyieithrwydd:-

- Bathodynnau hunaniaeth dwyieithog
- Arddangosiadau, cyhoeddiadau
- Arwyddion
- Cerbydau ac adeiladau

4.1.4 Bydd penawdau llythyr a hysbysebion recriwtio yn cynnwys y datganiad dilynol yn hysbysu am ein polisi dwyieithog:

“Mae'r Awdurdod yn ymroddedig i gyfle cyfartal, yn gweithredu polisi rhannu swydd ac yn croesawu cyfatebiaeth / ceisiadau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gan bob adran o'r Gymuned.”

4.1.5 Rhoddir llawlyfr canllawiau hunaniaeth gorfforaethol y Cyngor i staff sy'n cynllunio neu'n trefnu cynhyrchu unrhyw un o'r uchod. Mae copi o'r llawlyfr ar gael ar wefan Fewnwyd y Cyngor.

4.2 ARWYDDION

- 4.2.1 Bydd yr holl arwyddion mewnlol ac allanol sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd ar eiddo'r Cyngor yn ddwyieithog pan yn newydd neu ar sail amnewid/adnewyddu.
- 4.2.2 Bydd arwyddion eraill y Cyngor, er enghraifft, priffyrdd (arwyddion ffordd, platiau enw stryd a marciau ffordd) ac arwyddion gwybodaeth gyhoeddus yn ddwyieithog pan yn newydd neu byddant yn dod yn ddwyieithog os bydd difrod iddynt neu os cânt eu hamnewid fel rhan o strategaeth cynnal a chadw neu welliant.
- 4.2.3 Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gadw rhestrï chywir a chyfredol o enwau trefi, pentrefi, cymunedau a wardiau yn ogystal â datblygiadau newydd. Ym mhob achos bydd y cyngor yn sicrhau fod ei restrï o safon uchel a bydd, mewn cysylltiad gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yn cynnal archwiliad o'r rhestrï y mae'n eu cadw a bydd yn eu safoni lle bo angen.
- 4.2.4 Gan fod gan y Cyngor hawl i benderfynu ar enwau strydoedd a datblygiadau tai newydd, mae'n cydnabod pwysigrwydd rhoi ystyriaeth briodol i farn leol. Pan yn enwi'r uchod, bydd y cyngor yn ymgynghori gydag aelodau ward a phlant ysgol lleol lle'n addas, ac yn mabwysiadu enw Cymraeg yn unig neu enw dwyieithog sy'n cyd-fynd â threftadaeth a hanes yr ardal. (Hysbysir contractwyr am y polisi hwn).
- 4.2.5 Bydd y Cyngor yn cysylltu â gwasanaeth ymgynghori enwau lleoedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg am gyngor ar ffurfiau safonol o enwau lleoedd.
- 4.2.6 Rhoddir arwyddion enwau stryd ac enw lleoedd dwyieithog lle mai dim ond enw Saesneg a ddefnyddir ar hyn o bryd, ar yr un sail â 4.2.2.
- 4.2.7 Bydd arwyddion newydd neu amnewid ar gerbydau'r Cyngor yn ddwyieithog.
- 4.2.8 Bydd unrhyw arwyddion newydd neu amnewid y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt yn ddwyieithog.
- 4.2.9 Pan ddarperir arwyddion dwyieithog neu Gymraeg a Saesneg unigol, bydd ansawdd, maint, eglurdeb ac amlygrwydd testun yr un yn y ddwy iaith.
- 4.2.10 Cyhoeddwyd llyfryn staff sy'n rhoi'r canllawiau uchod i'w dilyn i'r rhai sy'n ymwneud â dylunio a chynhyrchu arwyddion.

4.3 CYHOEDDI AC ARGRAFFU DEUNYDDIAU CYHOEDDUS

4.3.1 Mae gan y Cyngor Polisi Cyfieithu (mae copi yn cefn y dogfen) fydd yn rhoi canllawiau llym ar yr hyn y bydd y Cyngor yn ei gyfieithu i'r Gymraeg.

4.3.2 Pan fydd y Cyngor yn cynhyrchu deunydd dwyieithog i'r cyhoedd yn unol â'r Polisi Cyfieithu bydd fel arfer yn gwneud hynny gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg wedi eu cynnwys yn yr un ddogfen.

Gall fod yn angenrheidiol ar adegau i gyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, ac os felly fe'u cynhyrchir ar yr un pryd, eu dosbarthu gyda'i gilydd a byddant yr un mor hygyrch â'i gilydd.

4.3.3 Os yw'r Cyngor yn cynhyrchu dogfen y codir tâl amdani, codir yr un tâl am ddogfen ddwyieithog ag ar ddogfen unieithog.

Os cynhyrchir dogfennau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd yr un pris arnynt hwy hefyd.

4.3.4 Wrth benderfynu pa ddogfennau a gynhyrchir yn ddwyieithog, bydd Polisi Cyfieithu y Cyngor yn rhoi cyfarwyddiadau clir a bydd yn ystyried materion megis maint a natur y gynulleidfa darged, maint a natur y ddogfen a pha mor eang y caiff ei dosbarthu, yr amseriad a'r galw tebygol.

4.3.5 Rhoddir blaenoriaeth i gyhoeddi'n ddwyieithog y dogfennau hynny a gyhoeddir neu a wneir ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol ac sydd:-

- yn rhoi gwybodaeth ar wasanaethau'r Cyngor;
- esbonio a rhoi cyfarwyddyd ar bolisiau, cynlluniau, datblygu a gwasanaethau newydd y Cyngor;
- ceisio barn y cyhoedd drwy ymgynghoriad;
- cyhoeddi gwybodaeth benodol ar agweddau o'r gwasanaeth a ddarperir ar gyfer y cyhoedd.

Caiff y dogfennau â'r defnyddiau papur dilynol hefyd eu cynhyrchu'n ddwyieithog megis y fanyleb uchod.

- Trwyddedau
- Anfonebau
- Llyfrynau
- Cardiau Rhent
- Posterï
- Mapiau
- Amserlenni
- Bwydlenni Ysgolion
- Talebau
- Gwahoddiadau
- Derbynebaw
- Hysbysiadau papur newydd

4.3.6 Bydd y Polisi Cyfieithu yn rhoi cyfarwyddyd i staff a chyhoeddwy'r ar bolisi a gweithdrefnau ar gyfer cyhoeddi, yn cynnwys yr arddull a'r fformat ar gyfer cyhoeddiadau dwyieithog.

4.4 FFURFLENNI A DEUNYDDIAU ESBONIADOL

4.4.1 Caiff y ffurflenni a gyhoeddir gan adrannau'r Cyngor ynghyd ag esboniadau neu gyfarwyddiadau eu cynhyrchu'n ddwyieithog ar yr un ddalen neu ddogfen lle bo'n bosibl.

4.4.2 Os penderfynir fod fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân i gael eu darparu, yna cynhyrchir y ddau ar yr un pryd, byddant yr un mor hygyrch, cânt eu dosbarthu gyda'i gilydd a byddant yn cynnwys y neges fod y ffurflen hefyd ar gael yn yr iaith arall. Os yw dewis iaith y derbynnydd yn hysbys, yna meddir cyhoeddi'r fersiwn Gymraeg neu Saesneg fel sy'n briodol.

4.4.3 Cyhoeddwyd cyfarwyddyd ysgrifenedig i staff ac eraill yn ymwneud â dylunio a chynhyrchu ffurflenni.

4.5 DATGANIADAU I'R WASG

Mae datganiadau i'r wasg yn un o'r prif ffyrdd y mae'r Cyngor yn lledaenu gwybodaeth a newyddion yn rheolaidd i'r cyhoedd. Dilyni'r y polisi canlynol wrth benderfynu ar iaith datganiadau i'r wasg:

- 4.5.1 Bydd datganiadau i'r wasg i gyhoeddiadau Saesneg yn Saesneg yn unig
- 4.5.2 Bydd datganiadau i'r wasg i gyhoeddiadau dwyieithog yn ddwyieithog
- 4.5.3 Bydd datganiadau i'r wasg i gyhoeddiadau Cymraeg yn Gymraeg yn unig
- 4.5.4 Bydd datganiad dwyieithog ar bob datganiad i'r wasg i ddweud fod croeso i aelodau'r cyhoedd i gysylltu â'r Cyngor i drafod datganiad i'r wasg yn Gymraeg gydag aelod dynodedig o staff sy'n siarad Cymraeg.
- 4.5.5 Bydd aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddelio gyda'r cyfryngau yn Gymraeg lle bo angen.

4.6 HYSBYSEBU A CHYHOEDDUSRWYDD.

- 4.6.1 Lle mae'r Cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd i'w weithgareddau a gwasanaethau o fewn Cymru drwy arddangosfeydd, arddangosiadau a chyflwyniadau, bydd yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n trin y ddwy iaith ar y sail eu bod yn gyfartal.

Pan gynhelir y gweithgareddau hyn gan y Cyngor, neu yn ei enw, bydd y deunydd arddangos ac unrhyw ddeunydd ategol megis fideos, hysbysebion a phosteri yn ddwyieithog fel arfer. Fodd bynnag, gall arddangosiadau gynnwys eitemau o lenyddiaeth o Gymdeithasu a Mudiadau eraill nad ydynt ar gael yn Gymraeg neu nad ydynt wedi eu cynhyrchu yn ddwyieithog neu yn Gymraeg hyd yma.

- 4.6.2 Gall arddangosiadau lleol, stondinau gwybodaeth gyhoeddus ac arddangosiadau weithiau gael eu trefnu gan wasanaethau neu asiantau y Cyngor, ac felly bydd y cyflwyniadau yn ddwyieithog. Fodd bynnag, megis yn 4.6.1 uchod, gall maint y dwyieithrwydd amrywio yn dibynnu ar argaeledd deunyddiau dwyieithog neu Gymraeg.
- 4.6.3 Caiff lenyddiaeth megis llyfrynnau, pamffledi, taflenni, posterï a hysbysebion papur newydd a gynlluniwyd i hyrwyddo, rhoi cyhoeddusrwydd neu esbonio cynlluniau, polisiâu, gweithdrefnau, deddfwriaeth neu wasanaethau y Cyngor eu cynhyrchu'n ddwyieithog neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

4.6.4 Os yw'r Cyngor yn cynnal ymgyrch hysbysebu, hyrwyddo neu farchnata o fewn Cymru drwy gyfrwng y wasg, teledu, radio, sinema, poster, hysbysfyrddau, negeseuon electronig neu systemau annerch cyhoeddus, bydd yn defnyddio'r ddwy iaith ac yn gwneud trefniadau yn ôl y pwnc, y deunydd, y dulliau a ddefnyddir a'r gynulleidfa darged.

4.6.5 Pan yn cynnal arolygon neu ymchwil marchnad, bydd y Cyngor yn sicrhau y gwneir hyn yn ddwyieithog, yn dibynnu ar y dilynol:-

- Maint a natur y gynulleidfa darged.
- Yr ardal a orchuddir.
- Y deunydd pwnc.

4.6.6 Bydd staff ac eraill sy'n ymwneud â chynllunio, dylunio a chynnal ymgyrchoedd hysbysebu, cyhoeddusrwydd neu ymchwil marchnad yn cael eu hysbysu am ofynion y Cynllun ac yn cael cyfarwyddyd ar ei weithrediad.

4.7 HYSBYSIADAU CYHOEDDUS SWYDDOGOL

4.7.1 Bydd pob hysbysiad swyddogol a chyhoeddus sy'n ymddangos yng Nghymru un ai ar ffurf ddwyieithog neu gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu dangos gyda'i gilydd ac yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd, eglurdeb ac amlygrwydd, bydded hynny yn y wasg, ar hysbysfyrddau, hysbysiadau safle neu fel arall.

4.7.2 Lle bo hysbysiad yn cynnwys llawer o fanylion technegol, medrir cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân mewn papurau newydd a chylchgronau Cymraeg a Saesneg.

4.7.3 Bydd hysbysiadau a hysbysebion mewn papurau a chylchgronau Cymraeg yn Gymraeg yn unig.

4.7.4 Bydd y rhai a gyhoeddir yn y wasg leol (e.e. Western Mail, South Wales Argus, Abergavenny Chronicle, Free Press) yn ddwyieithog.

4.7.5 Pan y'u cyhoeddir ym mhrif bapurau newydd a chylchgronau Prydeinig byddant yn Saesneg yn unig, ond gydag elfen ddwyieithog safonol e.e. gweddlun dwyieithog corfforaethol, dyddiadau, cyfeiriad cyswllt, penawdau a datganiad ein bod yn gweithredu polisi dwyieithog.

4.8 HYSBYSEBION RECRIWTIO STAFF

Pan yn paratoi a chyhoeddi hysbysebion ar gyfer recriwtio staff yng Nghymru, bydd y Cyngor yn dilyn y trefniadau dilynol.

4.8.1 Bydd hysbysebion ar gyfer swyddi lle mae rhuglder yn y Gymraeg yn gymhwyster hanfodol yn ymddangos:

- yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg
- yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Saesneg yn cylchredeg yng Nghymru a ategir gyda nodyn esboniadol byr yn Saesneg.

4.8.2 Bydd hysbysebion am swyddi lle mae rhuglder yn y Gymraeg yn gymhwyster dymunol yn ymddangos:

- yn Gymraeg yn unig yn y wasg Gymraeg
- yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg yn cylchredeg o fewn Cymru.

4.8.3 Bydd hysbysebion am swyddi lle na ddynodwyd unrhyw ofyniad ieithyddol fel rhan o Strategaeth Sgiliau Ieithyddol y Cyngor yn ymddangos:

- yn Saesneg yn unig mewn cyhoeddiadau Saesneg yn cylchredeg o fewn Cymru
- yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg.

Lle dynodir y bydd yr hysbyseb yn Saesneg yn unig, defnyddir gweddwlun dwyieithog corfforaethol y Cyngor:-

Bydd enw'r adran, teitl y swydd a'r radd yn ddwyieithog, a bydd datganiad dwyieithog ein bod yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg a Saesneg.(megis yn 4.1.4 uchod)

4.8.4 Cyhoeddwyd cyfarwyddyd ar weithredu'r mesurau hyn i'r staff sy'n ymwneud â dylunio a chynhyrchu hysbysiadau cyhoeddus swyddogol a hysbysebion recriwtio.

5. GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

5.1 STAFFIO

5.1.1 Er mwyn darparu gwasanaethau effeithiol ac o ansawdd da i'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg, bydd gan y Cyngor nifer ddigonol o staff sy'n siarad Cymraeg. Bydd y Cyngor yn cymryd y mesurau dilynol:-

5.1.2 Er mwyn sicrhau dros gyfnod y gall y Cyngor gyflwyno ei wasanaethau yn effeithlon ac effeithiol i safon uchel yn y Gymraeg, bydd yn mabwysiadu strategaeth sgiliau ieithyddol fel rhan o'i gynllunio adnoddau dynol. Bydd y Strategaeth hon yn galluogi'r Cyngor i fonitro a chynnal trosolwg ar ei anghenion ac adnoddau sgiliau ieithyddol, ac yn cydlynu gweithgareddau hyfforddiant a recriwtio i hwyluso amcanion y Cynllun.

5.1.3 Bydd pob Adran yn cynnal Archwiliad Sgiliau Ieithyddol o'u gweithlu yn ôl lleoliad bob tair blynedd.

Bydd y cwestiynau yn dynodi'r dilynol:-

- Pwy sy'n siarad Cymraeg – a lefel eu gallu
- Pwy sy'n darllen Cymraeg – a lefel eu gallu
- Pwy sy'n ysgrifennu Cymraeg – a lefel eu gallu
- Pwy fedrai weithio ar sail feunyddiol drwy gyfrwng y Gymraeg
- Pwy sy'n dilyn hyfforddiant ar hyn o bryd
- Pwy sydd â diddordeb mewn dilyn hyfforddiant Cymraeg
- Pwy sydd wedi dilyn hyfforddiant Cymraeg yn y gorffennol

5.1.4 Bydd pob Adran yn dynodi ym mha ardal neu leoliad y teimlant y byddant angen i siaradwyr Cymraeg fod yn bresennol a chaiff y swyddi hyn eu dosbarthu fel Cymraeg yn ddymunol neu Cymraeg yn hanfodol.

5.1.5 Caiff canlyniadau'r ddau ymarferiad hyn eu cymharu i ddynodi gweithleoedd lle mae prinder sgiliau iaith Gymraeg er mwyn hwyluso datblygu strategaeth sgiliau ieithyddol.

5.1.6 Bydd y Cyngor yn dilyn y mesurau dilynol i ateb ymrwymadau'r cynllun.

- Recriwtio siaradwyr Cymraeg i swyddi penodol lle bernir fod sgiliau Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol pan ddaw swydd yn wag neu pan sefydlir swydd newydd;
- Annog siaradwyr Cymraeg i wneud cais am swyddi drwy gynnwys datganiad gyda hysbyseb y swydd fod y Cyngor yn gweithredu polisi dwyieithog ac yn croesawu ceisiadau yn y naill iaith neu'r llall.
- Hyfforddiant iaith Gymraeg i staff.

Ad-drefnu dyletswyddau a chyfrifoldebau staff lle mae staff yn cytuno. Ni ddodir pwysau ar staff i symud swydd neu gymryd rhan mewn hyfforddiant yn erbyn eu hewyllys fel canlyniad i'w gallu ieithyddol. Gwneir pob apwyntiad ar ragoriaeth ac yn unol â pholisïau cyfle cyfartal a deddfwriaeth cyflogaeth.

5.17 Mae'r Cyngor yn gweithredu Rhwydwaith iaith Gymraeg i ddelio gyda'i Gynllun Iaith Gymraeg. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr uwch o adrannau'r Awdurdod. Mae'r Gweithgor yn ymrwymedig i weithrediad Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, ac yn dynodi blaenoriaethau wrth weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg.

Bydd Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn gyfrifol am weithrediad a monitro'r Cynllun o fewn eu Hadrannau ar sail barhaol yn cynnwys recriwtio a hyfforddiant staff.

5.18 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am amrediad eang o wasanaethau, ac mae llawer ohonynt angen sgiliau proffesiynol a thechnegol arbenigol ar gyfer eu gweithredu. Efallai na fydd yn bosibl i gael siaradwyr Cymraeg ar gyfer yr holl feysydd hynny, ond bydd system o gydlynw rhwng y siaradwyr Cymraeg ar y rhestr a phobl dechnegol i ddarparu'r ansawdd gwasanaeth gorau oll i'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.

Y nod fydd cynyddu'r nifer o swyddogion a all helpu'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg o fewn gwasanaeth integredig. Caiff y cynnydd wrth gyflawni'r nod hon ei fonitro gan y Pennaeth Adnoddau Dynol mewn ymgynghoriad gyda'r Swyddog Cydraddoldeb, Rheolydd Hyfforddiant Corfforaethol a swyddogion y Gweithgor Iaith Gymraeg.

5.2 DYSGU CYMRAEG

5.2.1 Bydd y Cyngor yn annog a chefnogi Aelodau a staff sydd eisiau dysgu, gwella neu gynnal eu sgiliau iaith Gymraeg.

5.2.2 Cafodd rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg sy'n cynorthwyo'r Cyngor i weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg ei datblygu gan y Swyddog Cydraddoldeb mewn ymgynghoriad gyda Rheolwr Hyfforddiant y Cyngor.

5.2.3 Trefnir hyfforddiant o amgylch anghenion adrannau unigol a lle teimlant y bydd angen siaradwyr Cymraeg. Bydd Cyfarwyddwyr yn cyfeirio at yr archwiliad sgiliau ieithyddol i asesu'r ffordd orau o ddatblygu a defnyddio sgiliau iaith Gymraeg.

Bydd y Swyddog Cydraddoldeb mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Hyfforddiant Corfforaethol yn sicrhau y cynigir ac y trefnir hyfforddiant addas yn unol â gofynion y gwasanaeth ac y darperir geiriaduron a deunyddiau cyfeirio arall i gynorthwyo eu hastudiaethau.

5.3 RECRIWTIO

5.3.1 Bydd Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn archwilio anghenion gwasanaeth a phenderfynu ar y meysydd blaenoriaeth ar gyfer recriwtio siaradwyr Cymraeg er mwyn ateb gofynion y Cynllun. Byddant hefyd yn ystyried y sefyllfaoedd lle mae'n hanfodol neu'n ddymunol recriwtio swyddogion sy'n siarad Cymraeg er mwyn darparu gwasanaeth mor llawn ag sydd modd.

Lle mae gallu ieithyddol yn ddymunol neu hanfodol, amlygir hyn yn yr hysbyseb swydd.

5.3.2 Os yw'n profi anodd i ganfod swyddog addas yn siarad Cymraeg i swydd yr ystyrir bod angen Cymraeg ar ei chyfer, cymerir y camau dilynol:-

- penodi gyda'r amod y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus, gyda chefnogaeth y Cyngor, yn dysgu Cymraeg i safon a benodir o fewn amserlen a benodir; neu
- ad-drefnu'r gwasanaeth neu ddynodi trefniadau eraill i ddarparu'r sgil yn y gweithle drwy ddefnyddio sgiliau ieithyddol staff presennol mewn meysydd gwasanaeth eraill.

5.4 HYFFORDDIANT GALWEDIGAETHOL

5.4.1 Bydd Cyfarwyddwyr Corfforaethol mewn ymgynghoriad gyda'r Swyddog Cydraddoldeb a'r Rheolwr Hyfforddiant y Cyngor yn asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol penodol drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer staff sy'n siarad Cymraeg a ddynodwyd yn eu Hadran.

5.4.2 Lle dynodir angen am hyfforddiant galwedigaethol i hwyluso gweithrediad y Cynllun, ac y medrir darparu hyfforddiant addas, caiff ei ddarparu neu ei gefnogi yn unol â gofynion y gwasanaeth.

5.4.3 Bydd darpariaeth hyfforddiant yn cynnwys cyrsiau mewn sgiliau neilltuol, cyrsiau anwytho mewn rhai arbenigeddau, a darparu deunyddiau adnodd a deunyddiau dysgu o bell lle'n briodol.

5.5 TREFNIADAU GWEINYDDOL

5.5.1 Cafodd y Cynllun Iaith Gymraeg ei gymeradwyo ac mae'n cario awdurdod llawn y Cyngor Bwrdeistref Sirol yn ei weithrediad.

5.5.2 Bydd Cyfarwyddwr a enwebir gan y Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau y gweithredir y Cynllun ledled gwasanaethau'r Cyngor, a bydd yn cydlynu ac yn cynghori Cyngorwyr a Phrif Swyddogion ar y camau sydd eu hangen i weithredu'r Cynllun.

Y Cyfarwyddwr enwebedig yw Cyfarwyddwr Llywodraeth Gorfforaethol.

5.5.3 O fewn Strwythur Gweithredol y Cyngor, mae gan un Aelod Gweithredol gyfrifoldeb dros yr Iaith Gymraeg fel rhan o'u portffolio.

5.5.4 Bydd gan y Gyfarwyddwyr Corfforaethol gyfrifoldeb dros weithredu'r Cynllun hwn o fewn eu hadrannau unigol, a bydd yn dynodi Prif Swyddog gyda chyfrifoldeb rheoli o fewn yr Adran ar gyfer y pwrpas hwnnw.

5.5.5 Hysbysir pob aelod o staff am ofynion Cynllun yr Iaith Gymraeg a rhoddir arweiniad a chyfarwyddiadau priodol a pherthnasol iddynt.

5.5.6 Mae Rhwydwaith Iaith Gymraeg lle cynrychiolir pob Adran yn cwrdd yn chwarterol i sicrhau y caiff y Cynllun ei gydlynu'n gywir, gyda chysondeb ymarfer, a'i gadw dan adolygiad. Caiff y cofnodion eu cylchredeg i bob aelod o'r Gweithgor, Cyfarwyddwr Llywodraeth Gorfforaethol a Chadeirydd y Grŵp Cydraddoldeb cynhwysfawr.

5.5.7 Caiff yr angen i gynhyrchu deunydd dwyieithog ei ystyried pan yn cynllunio ac yn prynu meddalwedd cyfrifiadurol. Lle na fedrir addasu systemau cyfrifiadur presennol i ateb gofynion y Cynllun, caiff yr angen ei ateb ar adnewyddu ac amnewid cyn gynted ag sydd modd.

5.5.8 Bydd y Cyngor yn sicrhau fod gan unrhyw gyfieithwyr a gyflogir gymwysterau addas ac yn medru darparu gwasanaeth ansawdd uchel. Dylai cyfieithiadau gael eu E-bostio neu eu postio at y Swyddog Cydraddoldeb a fydd yn hwyluso'r holl broses cyfieithu ac E-bostio'r darn o waith wedi ei gwblhau yn ôl at y dechreuwr. Os oes angen aildeipio'r gwaith a gyfieithwyd am unrhyw reswm, mae'n hollol hanfodol i gael y gwaith wedi'i brawf ddarllen yn iawn er mwyn lleihau risg unrhyw anghywirdeb.

5.5.9 **Cwynion** Bydd y Cyngor yn monitro nifer a natur y cwynion yn cyfeirio at wasanaeth iaith Gymraeg y Cyngor Bydd pob Cyfarwyddwr yn gyfrifol am ddelio gyda chwynion gan y cyhoedd fel y cyfeiriant at wasanaethau'r gyfarwyddiaeth yn unol â gweithdrefn cwynion y Cyngor.

5.6 MONITRO

5.6.1 Bydd y Cyngor yn mabwysiadu'r strwythur adrodd dilynol:-

Caiff adroddiadau cynnydd mewnol eu paratoi a'u cyflwyno i'r Tîm Rheolaeth Corfforaethol ar sail chwe misol.

5.6.2 Bydd y Cyngor yn paratoi Adroddiad Monitro Blynyddol a fydd yn galluogi'r sefydliad i gyflawni'r amcanion dilynol:

- Mesur os yw'r Cyngor yn cydymffurfio gyda'r Cynllun;
- Mesur ansawdd y gwasanaeth cyfrwng Cymraeg;
- Mesur effeithlonrwydd ei weithdrefnau rheolaeth cynllun;
- Mesur digonolrwydd gallu sgiliau ieithyddol y Cyngor drwy gymharu'r adnoddau a'r angen cyfredol;
- Dadansoddi'r perfformiad ar sail adrannol, gorfforaethol a thematig i sicrhau cysondeb;
- Dynodi unrhyw wendidau allweddol gyda chynllun gweithredu ac amserlen i unioni'r sefyllfa.
- Yn dilyn cymeradwyaeth y Cyngor anfonir copi o'r Adroddiad at Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Bydd y Cyngor yn cynnal arolygon barn cyfnodol i ymgynghori â siaradwyr Cymraeg am safon y gwasanaeth a dderbyniant yn Gymraeg.

5.6.3 Bydd y Cyfarwyddwr Llywodraeth Gorfforaethol yn gyfrifol am fonitro'r gwasanaethau a ddarperir dan y Cynllun hwn a bydd yn gwneud darpariaethau i'w gynnwys o fewn y trefniadau ar gyfer monitro gwasanaethau yn gyffredinol.

Bydd staff eraill, partneriaid, contractwyr ac asiantau a gyflogir gan y Cyngor a'r cyhoedd yn gwybod pwy yw'r Cyfarwyddwr Llywodraeth Gorfforaethol.

5.6.4 Bydd monitro'r Cynllun yn weithgaredd strwythuredig a pharhaol a bydd yn ymestyn i'r rhai sy'n darparu neu'n gweinyddu gwasanaethau ar ran y Cyngor.

5.6.5 Unwaith y'i cymeradwywyd bydd yr Adroddiad ar gael i'w archwilio gan aelodau o'r cyhoedd yn holl swyddfeydd y Cyngor, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden ac ar safle Mewnruwyd y Cyngor ac anfonir copi at Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

5.6.6 Mae'r Cyngor yn croesawu a bydd yn cofnodi awgrymiadau ar wella'r gwasanaeth: dylai hyn gael ei wneud mewn ysgrifen a'i gyfeirio at y Cyfarwyddwr Llywodraeth Gorfforaethol neu Swyddog Cydraddoldeb neu i'r naill neu'r llall drwy wefan y Cyngor – www.blaenau-gwent.gov.uk

5.6.7 Yn nhrydedd flwyddyn gweithrediad y cynllun bydd y Cyngor unwaith eto yn adolygu a diwygio ei gynllun iaith Gymraeg ac yn cynhyrchu dogfen ddiwygiedig. Bydd y Cyngor hefyd yn paratoi adroddiad gwerthuso fydd yn dadansoddi'r perfformiad wrth weithredu'r cynllun dros y tair blynedd diwethaf. Bydd yr adroddiad yn cynnwys:

- Trosolwg a dadansoddiad thematig o berfformiad a chydymffurfiaeth gyda'r Cynllun dros y tair blynedd, yn nhermau ansawdd y gwasanaeth cyfrwng Cymraeg a hefyd reolaeth y cynllun.
- Amlinelliad o nodau, amcanion a thargedau pellach y Cyngor am y tair blynedd dilynol gydag amserlen weithredu ddiwygiedig. Bydd yr adroddiad hefyd yn amlinellu unrhyw welliannau neu ychwanegiadau y mae'r Cyngor yn teimlo y dylid eu cynnwys yn y cynllun diwygiedig.

5.7 TARGEDAU

5.7.1 Bydd y Cyngor yn monitro gweithrediad y Cynllun o gymharu â thargedau. Mae cynllun gweithredu'r Cynllun – paragraff 7.4 yn sefydlu targedau ar gyfer gweithredu.

5.7.2 Bydd y Cyngor yn adolygu'r targedau hyn yn flynyddol yng ngoleuni newidiadau mewn amgylchiadau ariannol a statudol.

5.7.2 Mewn ymateb i gais gan archwilwyr allanol y Cyngor, caiff y dangosyddion perfformiad dilynol eu monitro ar sail chwarterol gan bob adran:-

- Cadarnhad fod pob arwydd newydd yn ddwyieithog neu yn Gymraeg a Saesneg
- A yw ffurflenni, pamffledi, taflenni, llyfrynnau, poster, hysbysebion papur newydd ac adroddiadau yn ddwyieithog neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân?
- A yw arddangosfeydd, arddangosiadau a chyflwyniadau yn ddwyieithog?
- Y nifer o hysbysiadau cyhoeddus a gyhoeddir yn ddwyieithog.
- Y canran o alwadau switsfwrdd a gaiff eu hateb gyda chyfarchiad dwyieithog.

5.8 CYHOEDDI GWYBODAETH

5.8.1 Yn yr adroddiad monitro a fydd ar gael ar gyfer archwiliad y cyhoedd, bydd y Cyngor yn cyhoeddi gwybodaeth yn y wasg leol yn cymharu perfformiad gyda safonau a thargedau a nodir yn y Cynllun hwn.

Bydd yr wybodaeth yn cynnwys:-

- Y canran o ymatebion i ohebiaeth Gymraeg a gyflawnwyd o fewn yr amserlenni a nodwyd;
- Y canran o gyhoeddiadau priodol a gynhyrchir yn ddwyieithog;
- Perfformiad mewn ateb amserlenni ar gyfer prosesu hawliadau a cheisiadau a wneir yn Gymraeg;
- Amserau ymateb ar gyfer trefnu cyfarfodydd yn Gymraeg;
- Y canran o siaradwyr Cymraeg mewn swyddi lle pennir fod angen y gallu i siarad Cymraeg.

5.8.2 Os nad yw'r safonau a gyhoeddwyd yn cael eu hateb, bydd yr adroddiad yn esbonio'r rhesymau pam a pha gamau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater.

6. CYHOEDDUSRWYDD

6.1.1 Bydd y Cyngor yn hysbysu'r cyhoedd a'i staff ac asiantau am ei wasanaethau iaith Gymraeg ar y dechrau ac ar sail barhaol. Bydd yn sicrhau fod pobl sy'n ymwneud â'r Cyngor yn gwybod am y Cynllun ac y medrant ddelio gyda'r Cyngor yn yr iaith a ddewisant. Bydd yn eu hysbysu pa wasanaethau sydd ar gael a lle a phryd y byddant ar gael neu os ydynt ar gael yn barod.

6.1.2 Defnyddir y dulliau dilynol o gyhoeddusrwydd:

- Caiff tystysgrifau Bwrdd yr Iaith Gymraeg, posteri dwyieithog, dogfennau, pamffledi, hysbysebion ac arwyddion ac ati eu harddangos mewn swyddfeydd cyhoeddus ac ardaloedd derbynfa.
- Cyfarchion ffôn dwyieithog.
- Gwefan ddwyieithog y Cyngor
- Llenyddiaeth ddwyieithog (memoranda, dalenni cyfarch, dalenni trosglwyddo ffacs, penawdau llythyrau, cardiau busnes ac ati).
- Datganiad am bolisi dwyieithog y Cyngor yn ei hysbysebion recriwtio.
- Materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg ym mhapur newydd dwyieithog y Cyngor – Llais y Cymoedd.
- Cylchredeg gwybodaeth a chyfarwyddyd i staff.
- Dosbarthu copïau o'r Cynllun i asiantau/contractwyr y Cyngor a chyrrff eraill â diddordeb.

6.1.3 Bydd cyngor ar gyhoeddusrwydd i'r Cynllun a gwasanaethau iaith Gymraeg y Cyngor ar gael i staff sy'n ymwneud â chyhoeddusrwydd, cyfathrebu a chysylltu gyda contractwyr, asiantau a chyrrff eraill y mae'r Cyngor yn ymwneud â hwy.

7. CYNLLUNIAU GWEITHREDU

7.1 Caiff gweithrediad y Cynllun hwn ei fesur yn erbyn y dyddiadau targed penodol. Gosodwyd cynllun gweithredu ar gyfer parhad y cynllun hwn ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2004/2007 a fydd yn galluogi'r Cyngor i ystyried goblygiadau ariannol unrhyw fesurau sydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer eu gweithredu.

Os oes unrhyw newidiadau arfaethedig i'r amserlen, ymgynghorir â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymlaen llaw i ymofyn eu cymeradwyaeth.

7.2 Ers i'r Cynllun hwn gael ei gymeradwyo gyntaf gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 23 Ionawr 1998, caiff llawer iawn o'r mesurau gwreiddiol ynddo yn awr eu gwneud gan gyflogedigion fel mater o foes ac arfer, e.e.

- Cyfarchion ffôn dwyieithog.
- Atebion dwyieithog – cyfarchion ffôn
- Papur ysgrifennu dwyieithog (memoranda, dalenni cyfarch, dalenni trosglwyddo ffacs, pen llythyrau, cardiau busnes, ac ati.)
- Datganiad am bolisi dwyieithog ar hysbysebion recriwtio.
- Dogfennau recriwtio dwyieithog.
- Hysbysiadau cyhoeddus dwyieithog.
- Cylchlythyr Cyngor dwyieithog..
- Dosbarthu crynodeb perthnasol o'r Cynllun Iaith Gymraeg i gontractwyr trydydd parti.
- Arwyddion mewnol/allanol/ffordd/cerbydau/ dwyieithog ar sail newydd neu adnewyddu/amnewid.
- Ymateb Cymraeg i ohebiaeth Gymraeg.
- Darparu cyfieithydd ar y pryd a chyfarchwyr sy'n medru'r Gymraeg i gyfarfodydd ar gais neu oherwydd deunydd pwnc y cyfarfod.
- Cronfa o siaradwyr Cymraeg i fod ar gael i ddelio gyda'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg a'r wasg, a pe byddai cynrychiolwyr adrannol heb fod ar gael, yn barod i weithredu fel trydydd partïon i adrannau eraill.
- Hyfforddiant iaith Gymraeg i staff ac Aelodau.
- Mae'r holl ddogfennau yn cyfeirio at Gofrestru Etholiadol a Thrwyddedu Tacsis yn awr yn ddwyieithog.

7.3 Mae'r Cynlluniau Gweithredu islaw yn nodi gweithrediad y Cyngor o'r Cynllun a hwy yw'r meysydd na chafodd eu trafod yn annigonol hyd yma neu nad ydynt wedi cyrraedd cydymffurfiaeth lawn.

Cafodd y dyddiau targed a nodwyd eu dewis yn ofalus, a rhoddir blaenoriaeth i'r meysydd hynny y cred y Cyngor sydd â'r effaith a'r budd mwyaf i'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.

7.4 Bydd y Cyfarwyddwr Corforaethol enwebedig yn gyfrifol am fonitro gweithrediad y Cynllun yn flynyddol yn ôl y Cynllun Gweithredu a'r dyddiadau targed. Lle na chaiff targedau eu cyrraedd, cyflwynir esboniad o'r rhesymau pam a dyddiad targed diwygiedig i'r Cyngor a Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

DAB/CD/SE
IONAWR2006

AD041124

7 CYNLLUN GWEITHREDU YR IAITH GYMRAEG

Gweithgaredd	Canlyniad Bwriedig	Cerrig Milltir Allweddol	Adnoddau	Amserlen	Corff Monitro a Chyfnod	Gwerthusiad	Swyddog Arweiniol	Ffactorau Llwyddiant Critigol
ADOLYGU LLAWLYFR CYFARWYDDYD IAITH GYMRAEG I STAFF	1.CODI YMWYBYDDIAETH STAFF AC AELODAU 2. CODI LEFELAU CYDYMFFURFIAETH	1. CREU LLYFRYN 2. DOSBARTHU LLYFRYN	1. AMSER STAFF 2. COSTAU ARGRAFFU	MEDI 2006	GWEITHGOR IAITH GYMRAEG CHWARTEROL	DANGOSYDDION PERFFORMIAD I'W SEFYDLU I FONITRO CYDYMFFURFIAETH GAN STAFF AC ADRANNAU	SWYDDOG CYDRADDOLDEB	1. DOSBARTHU'R LLYFRYN YN DDA 2. CYMERADWYAETH UWCH SWYDDOGION
MONITRO CYDYMFFURFIAETH GYDA'R IAITH GYMRAEG	GWERTHUSO CYDYMFFURFIAETH GYDA CHYNLLUN IAITH GYMRAEG Y CYNGOR	1. GWYBODAETH AR OBLYGIADAU DEDDF YR IAITH GYMRAEG 2. CREU PROSES FONITRO	AMSER STAFF	DECHRAU MEHEFIN 2006 AC YN FLYNYDDOL WEDYN	AELODAU GWEITHGOR ADRANNOL	ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL	AELODAU GWEITHGOR IAITH GYMRAEG	TYSTIOLAETH O GYDYMFFURFIAETH GYDA'R CYNLLUN IAITH GYMRAEG
CYNLLUNIAU GWEITHREDU ADRANNOL	ANNOG ADRANNAU I WNEUD YR IAITH GYMRAEG YN RHAN GYFANNOL O WAITH BEUNYDDIOL Y CYNGOR	DATBLYGU CYNLLUNIAU GWEITHREDU ADRANNAU UNIGOL	AMSER STAFF	HYDREF 2006	GWEITHGOR IAITH GYMRAEG	ADRODDIADAU BLYNYDDOL	AELODAU GWEITHGOR IAITH GYMRAEG	CYNHYRCHU CYNLLUN GWEITHREDU

CYNLLUN GWEITHREDU YR IAITH GYMRAEG

Gweithgaredd	Canlyniad Bwriedig	Cerrig Milltir Allweddol	Adnoddau	Amserlen	Corff Monitro a Chyfnod	Gwerthusiad	Swyddog Arweiniol	Ffactor Llwyddiant Critigol
ANNOG YR HOLL STAFF I ATEB Y FFÔN YN DDWYIEITHOG	CYNNIG GWELL DEWIS IAITH I'R CYHOEDD	NODYN I'R HOLL STAFF	1 AMSER STAFF 2 COSTAU ARGRAFFU	PARHAOL GORFFEN NAF 2006 2005	SWYDDOG CYDRADDOLDEB AC AELODAU GWEITHGOR	MONITRO GAN SWYDDOGION CYDRADDOLDEB AC AELODAU GWEITHGOR YN YMOFYN CYDYM-FFURFIAETH	SWYDDOG CYDRADD-OLDEB/ AELODAU GWEITHGOR/ UWCH SWYDDOG	- DERBYN CYFARWYDDYD - NIFER UWCH O GYFARCHION DDWYIEITHOG
GWEFAN DDWYIEITHOG I'R CYNGOR	CYNNIG DEWIS IAITH WRTH LEDAENU GWYBODAETH Y CYNGOR	1 CREU FFURF DDWYIEITHOG 2 CYFIEITHU GEIRIAD	1 AMSER STAFF 2 COSTAU CYFIEITHU	DECHRAU PROSES CYNYDDOL IONAWR 2006 DWYIEITHOG ERBYN IONAWR 2009	GWEITHGOR GWEFAN GWEITHGOR IAITH GYMRAEG CHWARTEROL	GWEITHGOR IAITH GYMRAEG	ADRAN TG SWYDDOG CYDRADD-OLDEB	1 CREU FFURF ADDAS 2 GWEFAN DDWYIEITHOG

CYNLLUN GWEITHREDU YR IAITH GYMRAEG

Gweithgaredd	Canlyniad Bwriedig	Cerrig Milltir Allweddol	Adnoddau	Amserlen	Corff Monitro a Chyfnod	Gwerthusiad	Swyddog Arweiniol	Ffactor Llwyddiant Critigol
PARATOI POLISI CYFIEITHU	DYNESIAD CYSON AT GYNHYRCHU DEUNYDD DWYIEITHOG	1.LLUNIO POLISI 2. GWEITHREDU POLISI	AMSER STAFF	1.TACH 2005 2 MEHEFIN 2006	GWEITHGOR IAITH GYMRAEG PARHAOL	MONITROI DANGOSYDDION PERFFORMIAD POLISI A DDATBLYGWYD AR GYFER GWERTHUSO.	SWYDDOG CYDRADDOLD EB	LLUNIO POLISI DEFNYDD EFFEITHLON O'R POLISI
PARATOI STRATEGAETH SGILIAU ALLWEDDOL	DYRANNU SIARADWYR CYMRAEG I SWYDDI LLE'N DEBYGOL Y BYDD ANGEN SGILIAU CYMRAEG	1 LLUNIO POLISI 2 GWEITHREDU POLISI	1 AMSER STAFF 2 ADNODDAU AR GYFER HYFFORDDI ANT IAITH GYMREG 3 ADNODDAU AR GYFER RECRIWTIO STAFF	MAI 2006 TACHWEDD 2006	1 GWEITHGOR IAITH GYMRAEG A GRWP CYNHWYS-FAWR CHWARTEROL	1 GWEITHGOR IAITH GYMRAEG A GRWP CYNHWYS-FAWR CHWARTEROL	1 SWYDDOG CYDRADDOLD EB 2 SWYDDOG GRWP CYNHWYS-FAWR 3 PENNAETH ADNODDAU DYNOL	1 LLUNIO STRATEGAETH 2 YMRWYMIAD CYNGOR 3 GWEITHREDU LLWYDDIANNUS

8 POLISI CYFIEITHU YR IAITH GYMRAEG

Categori A

Hollol ddwyieithog – gwybodaeth a anfonir neu a welir gan y Cyhoedd parthed gwasanaethau ac ati a ddarperir gan y Cyngor.

Eitemau

Nodiadau Ychwanegol

Anfonebau	Dwyieithog
Arddangosiadau ac Arddangosfeydd	Gall arddangosiadau gynnwys eitemau o lenyddiaeth nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cyngor a gall fod nad ydynt ar gael yn Gymraeg, neu heb eu cynhyrchu'n ddwyieithog eto, neu yn Gymraeg yn unig.
Arwyddion	Arwyddion mewnol ac allanol ar adeiladau'r Cyngor, arwyddion ffordd, platiau enw stryd a marciau ffordd, datblygiadau tai newydd wedi'u henwi yn Gymraeg yn unig neu'n ddwyieithog
Bathodynau Adnabod	Dwyieithog
Bwydlenni	Dwyieithog
Cardiau Busnes	Dwyieithog Cefn i Gefn
Cardiau Cydnabod	Dwyieithog
Cardiau Galw	Dwyieithog
Cardiau Rhent	Dwyieithog
Cryno Ddisgiau	Ar gyfer deunyddiau hyrwyddo, yn cynnwys clawr y CD
Crynodebau Gweithredol	Os penderfynir gwneud Crynodeb Gweithredol e.e. Cynllun Cymunedol oherwydd fod yn rhy faith neu'n rhy gymhleth - yna bydd y Crynodeb Gweithredol yn hollol ddwyieithog. (Cysyllter â'r Swyddog Cydraddoldebau i drafod ar 355108).
Cylchlythyrau/Papurau Newydd yn cynnwys Newyddion Tai, Llais y Cymoedd a Cymunedau'n Gyntaf	Dwyieithog
Cysylltau Clywedol, Negeseuon Electronig, Sgriniau ac ati	Dwyieithog
Dalenni amser	Dwyieithog
Dalenni Cyfarch	Dwyieithog
Dalenni Trosglwyddo Ffacs	Dwyieithog
Datganiadau i'r Wasg	Yn Gymraeg lle mai'r Gymraeg yw'r deunydd pwnc – i'w gyhoeddi yn y wasg Gymraeg Golwg, Y Byd, Y Cymro ac ati
Derbynebau	Dwyieithog
Deunydd Cyhoeddusrwydd	Dwyieithog
Deunydd Ysgrifennu Etholiadol	Dwyieithog

Enwau brand	Dwyieithog neu Gymraeg yn unig
Ffurflenni Cais am Swydd	Dwyieithog
Ffurflenni i'r Cyhoedd	Dwyieithog os na fyddai fersiynau ar wahân yn fwy ymarferol oherwydd eu cymhlethdod
Gwahoddiadau	Dwyieithog
Gwefannau a Thudalennau Gwe	Rhaid i bob tudalen Saesneg gael fersiwn Cymraeg cyfatebol, gyda botwm hwylio iaith. (Oherwydd dyluniad arfaethedig gwefan newydd, rydym yn y broses o gytuno ar ymagwedd gynyddol at ei datblygiad a dosberthir y manylion pan y'u cytunir).

Gwybodaeth, arolygon a holiaduron mewnol y cyngor	Bydd y rhain yn ddwyieithog os anfonir gwybodaeth o'r fath mewn taflen a fydd mewn bodolaeth am beth amser neu'n arolwg byr. Cysyllter â'r Swyddog Cydraddoldeb i gael cyngor pellach ar y mater hwn.
Holiaduron ac Adborth Arolygon	Dwyieithog
Holiaduron ac Arolygon	Dim ond os yw dewis iaith unigolion neu grwpiau yn hysbys y caniateir fersiynau un iaith.
Hysbysiadau Cyfarfodydd Cyhoeddus	Dwyieithog
Hysbysiadau i'r Wasg yn cynnwys Gorchmynion Trafnidiaeth ac ati	Dwyieithog
Hysbysiadau Rhybudd	Dwyieithog
Hysbysebion Arwyddbost mewn Papurau	'Pen a'r Gynffon yn Gymraeg' – Enw'r Swydd, Lleoliad, Gradd a Datganiad ar y gwaelod fod y Cyngor yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg ac yn Saesneg.
Hunaniaeth Gorfforaethol y Cyngor	Mae hyn yn cynnwys ei enw, cyfeiriad, logo, arwyddair, hunaniaeth weledol (e.e. arwydd, brandio), gwybodaeth adrannol safonol. Rhaid i'r ddwy iaith fod yn gyfartal o ran maint ac amlygrwydd.
Hysbysebion	Dwyieithog
Hysbysebion Swydd – Microsafle'r Cyngor	Cymraeg yn unig lle dynodir fod y swydd yn un lle mae'r Saesneg yn hanfodol (gyda disgrifiad Saesneg byr), dwyieithog lle mae'r Gymraeg yn ddymunol. Saesneg yn unig lle na fanylir iaith, ond 'pen a'r gynffon' yn Gymraeg.
Llyfrynnau	Dwyieithog
Llythyrau Safonol a Chylchlythyrau i'r Cyhoedd	Dwyieithog lle nad yw dewis iaith y derbynnydd yn hysbys.
Mapiau	Dwyieithog
Marciau ar Gerbydau ac Arwyddion ar Adeiladau	Yr arfer safonol yw Cymraeg ar un ochr y cerbyd a'r Gymraeg ar y llall ond medrir newid hyn, yn dibynnu ar y dyluniad
Pamffledi	Dwyieithog

Pasiau	Dwyieithog
Pecynnau Cais am Swydd	Dwyieithog
Pennawd llythyrau	Dwyieithog
Posterï (Mewnol ac Allanol)	Hollol ddwyieithog gyda'r ddwy iaith ar yr un ochr.
Sticerï	Dwyieithog
Strategaethau/Polisïau/Cynlluniau	Dwyieithog
Taflenni	Dwyieithog
Tocynnau	Dwyieithog
Tocynnau Caniatâd	Dwyieithog
Trwyddedu e.e. Taxis, Adloniant	Dwyieithog

Argymhellir fod taflenni, pamffledi, adroddiadau ac ati yr asesir fod angen eu cyfieithu yn cael eu hargraffu gyda'r Gymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr ac nid mewn 'plygu a throi' neu 'gefn i gefn'. Cysyllter â'r Swyddog Cydraddoldeb i gael manylion pellach ar '355108.

Categori B

Fersiynau Saesneg a Chymraeg ar wahân

Eitem

Nodiadau Ychwanegol

Ffurflenni ar gyfer y Cyhoedd	Cynhyrchir fersiynau ar wahân lle byddai hyn yn fwy ymarferol oherwydd eu cymhlethdod.
Gohebiaeth gyffredinol gydag unigolion neu grwpiau a restrwyd ar gronfa ddata.	<i>Dim</i> ond lle nodwyd dewis iaith y rhai ar y gronfa ddata ei nodi y cynhyrchir fersiynau ar wahân, ar wahân bydd yr ohebiaeth yn ddwyieithog.
Gwybodaeth, arolygon a holiaduron mewnol y cyngor	Dim ond lle na fyddai dogfen ddwyieithog yn dderbyniol oherwydd y byddai'n rhy fawr y mae fersiynau Cymraeg a Saesneg yn dderbyniol. Lle mae hyn yn digwydd, dosberthid y gwahanol fersiynau gyda'i gilydd. (Cysyllter â'r Swyddog Cydraddoldebau i drafod ar 355108).
Llenyddiaeth i Ysgolion	Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth brint gyffredinol wedi'i hanelu at ysgolion, a chyhoeddir digon o gopiâu yn Gymraeg ar gyfer anghenion yr ysgolion Cymraeg.
Llythyrau i Ysgolion	Lle anfonir llythyrau unigol, mae cyfrwng iaith yr ysgol yn hysbys ac felly medrir ysgrifennu'r llythyr yn yr iaith briodol.
Papurau Pwyllgor ac Atodiadau cysylltiedig	Dim ond lle mae cyfeiriad penodol at faterion iaith Gymraeg, addysg cyfrwng Cymraeg neu lle gwnaed cais am gyfieithiad y caiff y rhain eu cyfieithu.

Categori C

Saesneg yn unig

Eitemau

Nodiadau Ychwanegol

Adroddiadau mewnol	Saesneg yn unig
Canllawiau mewnol	Saesneg yn unig
Cyfrifon	h.y. cofnodion ariannol mewnol, nid hysbysiadau cyhoeddus ac ati.
Cylchlythyrau mewnol	Saesneg yn unig
Dogfennau contract	Saesneg yn unig
Dogfennau ymgynghori a drafftiau gwaith	Ni chaiff dogfennau ymgynghori a drafftiau gwaith eu cyfieithu fel arfer gan y bydd y fersiwn terfynol yn ddwyieithog

	<p>a gallai fod llawer o newid ar y geiriad yn dilyn sylwadau a dderbyniwyd. Oherwydd y byddai nifer gynyddol o ymgynghoriadau yn gorfod cynnwys siaradwyr Cymraeg fodd bynnag, rhaid nodi ar y drafft y bydd y fersiwn terfynol yn ddwyieithog NEU y gwnaed penderfyniad i gynnal yr ymgynghoriad yn ddwyieithog. Cysyllter â'r Swyddog Cydraddoldebau i gael cyngor pellach ar y mater hwn.</p>
Gwybodaeth hanesyddol/archif	Saesneg yn unig
Papurau ymchwil	Saesneg yn unig
Tafleddi cynhadledd a gyflenwir gan gyrff neu unigolion eraill.	Saesneg yn unig